Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gwynfryn
# Pontiets
# Llanelli
# SA15 5SN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gwynfryn ym mhentref Pontyates, yng Nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn byw yn y pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un sy'n gymharol ddifreintiedig yn economaidd a chymdeithasol. Mae gan 41% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch o lawer na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae 64 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir disgyblion yn llawn amser i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor y maent yn bedair oed. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg.

Daw 30% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi dynodi 32% o ddisgyblion yn rhai sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol; ffigwr sydd yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn gweithredu fel ysgol ffederal mewn cydweithrediad agos ag ysgol gerllaw ac yn rhannu arbenigedd staff ac adnoddau. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gwynfryn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,724 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gwynfryn yn y 39fed safle o'r 110 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod canlyniadau asesiadau diwedd cyfnodau allweddol yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod ag ysgolion tebyg;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau eu dysgu;
- cynygir amrediad da o brofiadau diddorol ar draws y cwricwlwm; a
- darperir amgylchedd dysgu gofalgar sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- gweledigaeth ac arweinyddiaeth gadarn y pennaeth;
- staff sy'n rhannu'r un gwerthoedd ac yn cydweithio'n agos fel tîm;
- defnydd effeithiol o weithdrefnau arfarnu sy'n dylanwadu'n gyson ar y cynllun gwella;
- defnydd medrus o arbenigedd pynciol yr athrawon sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth; a
- chorff llywodraethol sy'n darparu cyfeiriad strategol cadarn ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 wella cyflawniad y disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 ymestyn medrau llafar Cymraeg y disgyblion ar draws yr ysgol, a chryfhau medrau darllen y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen;

A3 sicrhau bod y tasgau bob amser yn cwrdd ag anghenion disgyblion llai galluog yng nghyfnod allweddol 2;

A4 datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; a

A5 gwella ansawdd yr adborth llafar ac ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Tros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn gyffredinol uwch na'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed cystal neu'n uwch na'r teulu mewn Saesneg a mathemateg. Maent yn fwy anwastad mewn Cymraeg a gwyddoniaeth.

O gymharu â chanlyniadau'r teulu, mae cyflawniad disgyblion mwy galluog yn anwastad. Tros gyfnod, mae canlyniadau'r ysgol yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim. Maent yn fwy anwastad mewn Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ac weithiau da. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw ar ddysgu blaenorol yn effeithiol. Ar draws y dosbarthiadau, mae lleiafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau a mynegi barn.

O fewn yr ystod eang o allu, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif y disgyblion yn darllen yn hyderus gyda mynegiant da. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth ddigonol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn gywir ac yn ystyrlon.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n annibynnol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol i ystod o ddibenion. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gymharol gywir, gan amrywio brawddegau a pharagraffu'n briodol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau Saesneg mwyafrif y disgyblion yn dda. Maent yn trafod yn hyderus, yn darllen yn ystyrlon ac yn ysgrifennu'n gyffredinol gywir.

Ar draws yr ysgol, gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae rhai nodweddion da iawn yng ngwaith disgyblion cyfnod allweddol 2 gyda llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau yn hyderus. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Yn gyffredinol, gwnânt ddefnydd da o'u medrau meddwl a'u medrau ymchwilio i'w cynorthwyo gyda'u gwaith topig. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2 yn anwastad gyda'r lleiafrif yn ysgrifennu'n daclus yn gyson.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwrtais a pharchus at ei gilydd ac at oedolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ac agweddau positif at fyw a bwyta'n iach, ac o werth ymarfer y corff a ffitrwydd.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos diddordeb mawr yn eu dysgu. Cydweithiant yn gynhyrchiol ag eraill ac ymdrechant yn dda i gwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r swyddogion yn cyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau ar ystod o faterion megis creu rheolau'r ysgol.

Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd diwethaf yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn brydlon.

Mae'r holl ddisgyblion yn ehangu eu medrau cymdeithasol a phersonol yn gyson trwy gydweithio â disgyblion eraill, a chymryd rhan mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgareddau cymunedol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion. Er y cynllunnir yn fanwl, nid oes sylw cyson i anghenion dysgu'r ystod lawn o allu yn y dosbarthiadau, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r medrau yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio ac mae'r ddarpariaeth yn sicrhau cyfleoedd priodol i'r disgyblion i'w datblygu ar draws y cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd cyson. Rhoddir cyfleoedd addas iddynt ddysgu am eu hardal leol a Chymru trwy amrywiol agweddau o'r cwricwlwm. Mae'r ymweliadau i fannau o ddiddordeb addysgiadol a gweithgareddau amrywiol eraill yn cyfoethogi ac yn ymestyn y cwricwlwm ac yn cyfrannu'n bwrpasol at eu profiadau dysgu.

Mae gweithgareddau'r pwyllgor eco, prosesau ailgylchu a'r prosiect i adnewyddu'r ardd yn hybu gwybodaeth y disgyblion o bwysigrwydd cynaladwyedd a gwarchod yr amgylchfyd yn effeithiol. Darperir cyfleoedd da iddynt ymestyn eu profiadau fel dinasyddion byd-eang drwy'r ystod o gysylltiadau adeiladol gydag ysgolion eraill yn Ewrop.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda ar y cyfan. Mae'r holl athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Adlewyrchir hyn yn y cynllunio ac yn eu defnydd o fedrau pynciol cadarn wrth arwain y dysgu. Mae perthynas waith dda rhwng athro a disgybl, a gwna'r cymorthyddion dosbarth gyfraniad effeithiol at y dysgu ar draws yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau lle mae'r addysgu yn effeithiol, llwyddir i ysgogi a chynnal diddordeb y disgyblion drwy ddefnydd da o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau symbylol. Ceir ffocws clir ar adeiladu ar waith blaenorol, holi treiddgar a chyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau a grwpiau.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau na'r drefniadaeth yn cyfateb yn ddigonol i anghenion y disgyblion llai galluog, ac mae yna orddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes sylw digonol bob amser i ddarparu adborth clir a fydd o gymorth iddynt wella safon eu gwaith. Mae'r adroddiadau i rieni yn cynnig gwybodaeth lawn ar gynnydd eu plant.

Mae'r athrawon wedi ymgorffori rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu harfer yn yr ystafell ddosbarth. Yn gyffredinol, nid oes cynllunio digonol i sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion werthuso eu gwaith ac i fesur eu cynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Hyrwyddir ystod eang o fentrau sy'n annog bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae cydweithio agos rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion yn ôl y galw.

Mae'r ysgol yn defnyddio prosesau manwl i adnabod a monitro cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y rhieni rôl weithredol yn y broses. Darperir ystod o raglenni ymyrraeth sy'n llwyddo i wella medrau llythrennedd y disgyblion ar draws yr ysgol.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Trwy ymweliadau a phrosiectau, darperir ystod o brofiadau creadigol a diwylliannol gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cyfrannu'n arwyddocaol at awyrgylch gofalgar yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Llwyddir i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, a'r ymgyrchon i godi arian at achosion da yn cyfrannu at hyn yn gyson.

Gwneir defnydd effeithiol o'r holl adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae digon o staff profiadol a gwna'r ysgol ddefnydd llawn o'u harbenigeddau i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r adeiladau yn cael eu cynnal yn dda ac, er eu hoed, yn darparu amgylchedd dysgu priodol. Ar y cyfan, gwneir defnydd da o'r ardaloedd allanol. Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn lliwgar ac yn rhoi bri ar waith disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, gan roi cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth a gweddill y staff yn cydweithio'n effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar y ddarpariaeth ac ar gyflawniad y disgyblion.

O dan arweiniad cadeirydd profiadol, mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda o'r ysgol. Mae'r weledigaeth a'r hyder i fachu ar fanteision trefn ffederaleiddio er mwyn datblygu'r ysgol ymhellach yn nodwedd ragorol.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ddata perfformiad yr ysgol dros gyfnod ac mae eu rôl yn y broses hunan arfarnu yn datblygu'n effeithiol. Nid ydynt wedi mynd i'r afael yn llawn a herio cyflawniadau'r disgyblion mwyaf galluog.

Rhydd yr ysgol sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn cael eu creu mewn partneriaeth ag ysgolion eraill y clwstwr. Mae'r strwythur hwn yn hybu datblygiad staff drwy gynnig cyfleoedd iddynt rannu arfer dda a chreu adnoddau dysgu ar y cyd. Mae'r ysgol wedi ymgorffori egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac yn nodi'n glir yr ardaloedd i'w datblygu. Mae'r ysgol wedi gwneud pob ymdrech i gynnwys barn y staff, y llywodraethwyr, y rhieni, y disgyblion a'r gymuned yn y broses.

Mae systemau hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr. Maent yn cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi ac arfarnu gwaith y disgyblion. Mae deilliannau'r broses hon yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun gwella yn benodol ac yn gryno. Mae hefyd yn gosod fframwaith clir i wella ansawdd y ddarpariaeth ac i godi safonau disgyblion ymhellach.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgol y ffederasiwn, ysgolion clwstwr, yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion teulu. Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod a rhannu arferion da ym maes dysgu ac addysgu. Mae'r rhwydweithiau hyn yn dylanwadu'n bositif ar y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau strategol sy'n ymestyn y ddarpariaeth ac yn cyfrannu at godi safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr ac mae ymatebion yr holiaduron yn cadarnhau hyn. Maent yn cyfrannu'n weithredol at ystod o weithgareddau i godi arian a sicrhau gwelliannau i'r safle.

Gwna'r ysgol ddefnydd adeiladol o'r gymuned ac adnoddau cymunedol. Mae aelodau o'r gymuned yn gweithio'n effeithiol gyda'r disgyblion ar agweddau o'u themâu megis bywyd yn y chwe degau. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu dealltwriaeth am fywyd o fewn eu cymuned.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n helaeth gydag ysgolion eraill y clwstwr ar gyfer hyfforddiant, rhannu arfer dda ac er mwyn safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Mae cydweithio effeithiol iawn hefyd gyda'r bartner ysgol sy'n rhan o'r datblygiadau ffederaleiddio diweddar.

Mae trefniadau trosglwyddo llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau pontio amrywiol. Mae'r cyswllt gyda'r Cylchoedd Meithrin sydd yn bwydo'r ysgol yn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol sy'n hyrwyddo'r broses o ddatblygu'r ysgol ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Yn sgil y trefniadau diweddar i ffederaleiddio, mae'r ysgol yn wynebu cryn newid. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff wedi ymateb yn dda iawn i'r cyfleoedd i ehangu'r cwricwlwm ymhellach drwy ddefnyddio arbenigedd staff ac adnoddau dysgu. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus athrawon trwy system rheoli perfformiad priodol sy'n gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella o fewn cyd-destun yr ysgol. Darperir cyfleoedd cyson i'r cymorthyddion ddatblygu eu sgiliau drwy hyfforddiant cyson.

Mae'r trefniadau ar gyfer sesiynau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn cael dylanwad positif ar safonau ac ar ansawdd y cynllunio a'r asesu'n gyffredinol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn gyson. Maent yn rheoli'r cyflenwad o adnoddau sydd ar gael ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn effeithiol, gan sicrhau y gwneir defnydd llawn ohonynt.

O ystyried y deilliannau dros gyfnod, a'r defnydd bwriadus o'r cyllid sydd ar gael, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddisgyblion saith oed yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddisgyblion 11 oed yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal. Mae'r niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn a'r canran sylweddol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau sy'n gyffredinol is na'r rhai a ddisgwylir gan ddisgyblion o oedran tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd (lefel 2 mewn cyfuniad o'r pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân wedi bod yn anwastad ac yn dangos tuedd ar i lawr. Er hyn, mae'r canlyniadau yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau'r teulu yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Cafodd canlyniadau 2011 eu heffeithio'n sylweddol gan y canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sef 46%, ym mlwyddyn 2.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed o ran y dangosydd pwnc craidd yn gyson uwch na'r teulu, ac yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2011, gwelwyd gostyngiad yn y canlyniadau. Dynodwyd 31% o'r disgyblion yn y fintai fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Gan eithrio canlyniadau 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ar wahân wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu. Mae'n fwy anwastad mewn gwyddoniaeth.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau ar gyfer disgyblion saith oed o ran y dangosydd pwnc craidd yn ffafriol. Maent yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r disgyblion o ran y dangosydd pwnc craidd yn amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Maent yn y 25% uchaf mewn dwy allan o'r pedair blynedd.

Tros bedair blynedd, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r teulu mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canrannau yn gyson is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 yn anwastad ond hefyd yn uwch na'r teulu mewn o leiaf dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Gan eithrio Saesneg, mae'r canran yn gyson is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod rhai amrywiaethau amlwg mewn rhai blynyddoedd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r

merched ar y cyfan yn cyflawni'n well na'r bechgyn.  Yn 2011, mae yna fwlch sylweddol, gyda'r merched yn cyflawni'n well o lawer na'r bechgyn.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r patrwm yn fwy anwastad o ran y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefelau 4 a lefel 5. Yn 2011, mae'r bechgyn yn cyflawni'n well o ran lefelau 4 ym mhob pwnc ond ni wnaeth yr un bachgen gyflawni lefel 5.

Yn asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod gyda chyfartaleddau'r teulu.  Yn asesiadau 2011, mae'r  canlyniadau yn is na'r teulu.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llafar ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ar draws y blynyddoedd yn fwy anwastad o gymharu â'r teulu. Yn 2011, mae safonau llafar ac ysgrifennu Saesneg yn debyg i'r teulu ond yn is mewn darllen.  O ran ysgrifennu Cymraeg, maent yn debyg i gyfartaleddau'r teulu ond yn is mewn llafar a darllen.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 35 o holiaduron gan y rhieni.  Mae bron pob un yn fodlon â'r ysgol. Maent yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.  Dywedant fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu ac eu bod yn cael eu trin yn deg.  Maent o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol.  Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag unrhyw anghenion unigol penodol.  Teimlant fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.  Maent o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.  Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw beth gyda'r ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau.  Mae bron pob un o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 33 o ddisgyblion yr holiadur.  Mae bron pob un yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth.  Dywedant fod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda.  Mae bron pob disgybl yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach, a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Maent o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Teimlant fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith.  Credant fod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio.  Mae'r rhan fwyaf  yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Veronica Tudor Williams | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Bowen-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.